LEG-25-2001 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 13 Tachwedd 2001
**Amser:** 9.30 a.m
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Rosemary Butler a Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-24-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r pryderon a godwyd yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r angen i ddatgan unrhyw fuddiannau pan fyddai'r Pwyllgor yn trafod materion a allai fod yn berthnasol iddynt. Dosbarthwyd nodyn i'r aelodau yn amlinellu'r sefyllfa. Y sefyllfa yw nad yw'r Pwyllgor Deddfau yn trafod yr elfen bolisi o is-ddeddfwriaeth, gan ymwneud yn unig â materion megis pwerau a phriodolrwydd drafftio. Felly, nid yw'n angenrheidiol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai pedwar Comisiynydd Cyfansoddiadol o Uganda yn ymweld â'r Cynulliad ar ddydd Iau 15 Tachwedd er mwyn trafod deddfwriaeth eilaidd.

Gwahoddwyd yr aelodau i fynychu’r cyfeiriad.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC360: Gorchymyn Hysbysu Tatws sy’n Deillio o’r Almaen (Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, ni wnaeth y pwyllgor unrhyw sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad fel LC360 (Adroddiad).

**LC361 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy’r Traed a’r Genau) (Cymru) (Rhif 10) (Ffioedd) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i’r casgliad y gallai fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5, gan fod pryderon posibl ynglŷn â drafftio’r rheoliadau.

- Cyfeiriodd Rheoliad 2 at anfon "cynnyrch" o dan Reoliadau Rhif 10. Nid oedd yn glir p’un a fwriadwyd cyfyngu’r broses o godi ffi i waith goruchwylio ac archwilio mewn perthynas ag eitemau a nodwyd yn Rheoliadau Rhif 10 fel "cynnyrch" neu a fwriadwyd sicrhau y gellid codi ffi ar sail mwy cyffredinol.
- Mae’r rheoliadau yn datgan y caiff y broses o godi ffi ei awdurdodi lle – "cyflawnir gwaith goruchwylio neu archwilio at ddibenion sefydlu cymhwyster ar gyfer anfon". Nid oedd yn glir p’un a fwriadwyd iddo olygu mai dim ond pan fyddai’r person a oedd yn bwriadu anfon cynnyrch wedi trefnu unrhyw waith goruchwylio neu archwilio y gellid caniatáu codi ffi, neu p’un a ellid codi ffi hefyd lle cynhaliwyd archwiliad yn ôl penderfyniad yr awdurdod a oedd yn archwilio at y diben o gadarnhau p’un a gafwyd achos o dorri rheoliadau.

3.6 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu’r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae hyn yn darparu cyn adrodd yn ôl i’r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, bod yn rhaid i’r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y pwyllgor i wneud adroddiad o’r fath a rhoi’r cyfle i’r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**Eitem 4: Ail Adroddiad Winston Roddick QC: "Gweithredu System Ddeddfu a**

**Chyfiawnder sy’n trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal. Adroddiad pellach ar y gwersi yn sgîl Profiad Canada."**

4.1 Atgoffwyd Aelodau bod y Cwnsler Cyffredinol, Mr Winston Roddick CF, wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ar 19 Mehefin a 17 Gorffennaf 2001 pan gyflwynodd adroddiad ac ateb cwestiynau ar ei ymweliad i edrych ar y ffordd yr oedd Canada wedi paratoi ei deddfwriaeth ddwyieithog. Ail ymwelodd y Cwnsler Cyffredinol â Chanada a pharatôdd ail adroddiad gyda’r teitl: Gweithredu System Ddeddfu a Chyfiawnder sy’n Trin y Gymraeg a’r Saesneg yn Gyfartal, a chafodd copi ei ddosbarthu i’r aelodau.

4.2 Roedd y Cwnsler Cyffredinol wedi dweud y byddai’n mynychu’r Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft a’i argymhellion pe byddai’r Aelodau yn dymuno iddo wneud hynny. Cytunwyd y dylid gwahodd Mr Roddick i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod, yn arbennig, argymhellion ei adroddiad a sut y gellid eu datblygu. **Gweithredu: Clerc.**

**Eitem 5 Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20 Tachwedd 2001.